**AC-08-01 (min)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Tachwedd 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | | |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Dave Powell | Swyddog Cydymffurfiad y Cynulliad |
| | | |
| | Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| | James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

**Papur**: AC-08-01(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cymerodd Dai Lloyd le Dafydd Wigley, cymerodd Val Lloyd le Peter Law a chymerodd Eleanor Burnham le Kirsty Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones.

1.2 Nododd Val Lloyd ei bod yn gyfeillgar â Chadeirydd Cyngor y Celfyddydau a'i bod wedi cael ei chyflogi mewn swydd yn ymwneud ag addysg iechyd yn y gorffennol.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd bod cais wedi cael ei wneud i'r Pwyllgor glywed gan dystion eraill ar wahân i'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Nododd bod y Pwyllgor i glywed gan y Swyddog Cyfrifo, yn ôl gofyniad Rheol Sefydlog 12.8 ac mai ef oedd yn gyfrifol am rhoi adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru ac mai ef oedd â mynediad i'r cofnodion a'r cymorth angenrheidiol gan y corff hwnnw. Trafododd yr aelodau a fyddai angen tystion ychwanegol a chytunwyd i ohirio unrhyw benderfyniad tan ar ôl y gwrandawiad.

1.4 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol,' a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2001.

1.5 Bydd trawsgrifiad gair am air o'r eitem hon yn atodedig fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Peter Tyndall | Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Frances Medley | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru |

| | |
|---|---|
| Rhys Parry | Cyfarwyddwr, Cyllid ac Adnoddau, Cyngor Celfyddydau Cymru |

1.6 Ystyriodd y Pwyllgor alw ar dystion eraill i sesiwn dystiolaeth yn y dyfodol ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Dechreuodd Swyddog Cyfrifo presennol Cyngor y Celfyddydau, Peter Tyndall, ar ei swydd ar 1 Hydref eleni. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn codi materion yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed mor bell yn ôl â 1994.
- Byddai o fantais i'r Pwyllgor glywed gan y rhai hynny oedd yn gyfrifol ar y pryd am y penderfyniadau a amlinellwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r Pwyllgor alluogi'r rhai hynny a wnaeth y penderfyniadau i gael y cyfle i gyflwyno eu dealltwriaeth hwy o'r digwyddiadau.
- Nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd hon yn sesiwn dystiolaeth unigryw. Mae projectau Cyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon yn Lloegr a dderbyniodd arian y loteri wedi arddangos yr un nodweddion o ddiffyg profiad wrth reoli prosiectau ac asesu risg â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd fod Jon Shortridge wedi anfon neges yn nodi y byddai'n fwy na pharod i ddod i'r Pwyllgor i ymdrin â'r cwestiynau oedd ar ôl i'w trafod.
- Mae'n bwysig bod prosiectau megis Canolfan Mileniwm Cymru yn dysgu o brofiad Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Mae angen arbenigedd gweithdrefnol er mwyn i brosiectau sy'n derbyn arian y loteri lwyddo.
- Cytunodd y Pwyllgor bod angen sesiwn dystiolaeth arall ac y dylid gwahodd Joanna Weston, cyn Brif Weithredwraig a Chyfarwyddwraig y Gronfa Loteri, Emyr Jenkins, cyn Swyddog Gweithredol, Richard Lloyd-Jones, cyn Gadeirydd, Robert Edge, cyn Gyfarwyddwr y Gronfa Loteri a Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol.
- Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu crynodeb ar ba rai o'r tystion dethol oedd yn gyfrifol am y materion unigol oedd yn deillio o'r adroddiad i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol er mwyn sicrhau y byddai'r

sesiwn dystiolaeth yn canolbwyntio ar y cwestiynau na ellid eu hateb heddiw.

1.8 Trafododd y Pwyllgor themâu cyffredinol sydd wedi deillio o'r sesiwn dystiolaeth hon a sesiynau tystiolaeth yn y gorffennol. Mynegodd y Pwyllgor bryder am fod arian cyhoeddus wedi cael ei wario ar gyngor ariannol allanol anghywir. Petai asesiadau gwael yn cael eu gwneud, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid bod darpariaeth yn y contract gyda'r ymgynghorwyr ynglŷn ag atebolrwydd am niwed. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am wybodaeth ar arweiniad gweithrediaeth y Cynulliad ar gapio costau. Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i greu memorandwm oedd yn archwilio'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor i'r perwyl hwn.

**Eitem 2: Cofnodion y Pwyllgor Blaenorol**

**Papur:** AC-07-01(min)

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y pwyllgor blaenorol.

**Eitem 3 – Papurau i'w nodi**

| **Teitl** | **Cyfeirnod y papur** |
|---|---|
| Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymwneud â Rheoleiddio Cymdeithasau Tai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | AC-08-01(p.2) |
| Datganiad Blynyddol Sicrwydd Rheolaeth ELWa i'r Cynulliad | AC-08-01(p.3) |

3.1 Nododd y clerc bod camgymeriadau trawsgrifio wedi digwydd wrth i'r ysgrifenyddiaeth baratoi fersiwn electronig o Ddatganiad Blynyddol Sicrwydd Rheolaeth ELWa ac y byddai copi wedi'i gywiro yn cael ei ail-gyhoeddi. Nododd y Pwyllgor y papurau.

**Eitem 4: Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio – Cyfrifon Cryno 1999-2000 yr NHS**

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:*

*(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.*

4.2 Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad drafft a chytuno ar ei gynnwys gan wneud rhai mân-newidiadau.

**Eitem 5 – Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio ar Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Proffesiynol Byd Iechyd y Dyfodol yng Nghymru**

5.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi):

*Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:*

*(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.*

5.2 Ystyriodd yr aelodau yr adroddiad drafft a chytuno ar ei gynnwys.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.50pm.